# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET

## DYDD GWENER, 29 TACHWEDD 2019

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: L.Jones a/ac D.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, N.Headon a/ac N. Jones

---

1. **PERIODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd L Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2019.

3. **GRANT EIDDO MASNACHOL: 60 HEOL YR ORSAF, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo, dan y cynllun Grant Eiddo Masnachol, rhoi cymorth grant ar gyfer y gwaith gwella allanol yn 60 Heol yr Orsaf, Port Talbot.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Rhoi darpariaethau'r cynllun Grant Eiddo Masnachol ar waith yn unol â'r meini prawf a thelerau gweinyddu'r grant, er mwyn cyfrannu at adfywio canol tref Port Talbot

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 4. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL 2019/2020 - CHWARTER 2 (1 EBRILL 2019 I 30 MEDI 2019)

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 2018-19

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

## 6. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 7. TENDR ANFFURFIOL AR GYFER CAEL GWARED Â HEN GANOLFAN HAMDDEN YR AFAN LIFO A SAFLE'R MAES PARCIO GORLIF

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CYNNIG ARFAETHEDIG I GAEL GWARED Â THIR I'R GOGLEDD O FAES T? CANOL, BAGLAN, PORT TALBOT**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo gwaredu tir i'r gogledd o Faes Tŷ Canol, Baglan, Port Talbot, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi gwaredu tir dros ben a chael derbynneb cyfalaf.

**Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad â chynghorwyr ward lleol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

9. **CAM 2 FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT - YMESTYN Y CYFNOD STATUDOL AR GYFER CAIS GAN ASSOCIATED BRITISH PORTS HOLDINGS LTD. AM IAWNDAL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r terfyn amser i gyd-drafod yr hawliad gan Associated British Ports Holdings Ltd, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y camau gweithredu di-oed mewn perthynas â hawliadau dan Gynllun Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **EITEM FRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 12 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi'r eitemau hyn yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290 (fel y'i diwygiwyd).

Rheswm: Oherwydd yr elfen amser.

11. **FFORDD FYNEDIAD DDEHEUOL COED DARCY A CHAM 2 FFORDD AMAZON - GORCHYMYN PWRCASU GORFODOL 2010 - CAM 2 FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT - YMESTYN Y CYFNOD STATUDOL AR GYFER HAWLIADAU SY'N WEDDILL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo ymestyn y cyfnod statudol ar gyfer hawliadau sy'n weddill, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer y gweithredu di-oed sy'n ofynnol mewn perthynas â hawliadau o dan gynllun Ffordd Fynediad Coed Darcy a Cham 2 Ffordd Amazon.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith**:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**